***Llinyn: Elfennau ffurfiol Drama - Creu (Dyfeisio), Perfformio, Gwerthuso, Genre ac Arddull, Ffurf a Chydrannau Drama, Cydberthnasau a Datblygu Cymeriad, Theatr Fyw***

1

# Cam Cynnydd 1

| Gwybodaeth a Sgiliau | Geirfa | Profiadau a Nodweddion |
| --- | --- | --- |
| Gwybod/deall:<br>• Elfennau drama yw cydrannau pendant y broses o greu, perfformio ac ymateb mewn Drama.<br>• Gellir defnyddio elfennau drama i ddisgrifio cydrannau perfformiad.<br>• Mae perfformio mewn cymeriad yn digwydd ar lawer ffurf, gan gynnwys chwarae a chwarae rôl, a gellir ei gysylltu â'r dychymyg a chwarae dychmygu.<br>• Cymeriadau yw rolau/unigolion mewn perfformiadau a chwarae rôl.<br>• Mae adroddwr yn dweud beth sy'n digwydd ar y llwyfan, heb fod yn rhan o'r hyn sy'n digwydd ar y llwyfan.<br>• Gall llwyfan fod yn rhywle/pa le bynnag y mae'r perfformiad yn digwydd.<br>• Mae cynulleidfa yn gwylio perfformiad.<br>• Gall aelodau'r gynulleidfa ddod i farn am y perfformiad | • cymeriad<br>• rhewi'r ffrâm<br>• perfformiad<br>• llwyfan ("o flaen" cynulleidfa)<br>• cynulleidfa<br>• gwrando<br>• gwylio'n ofalus<br>• cymeriad<br>• rôl<br>• dychymyg<br>• chwarae<br>• dychmygu<br>• plot<br>• stori<br>• adrodd/adroddwr<br>• theatr | Mae'n hanfodol bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu defnyddio sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu e.e. perfformio, cyfansoddi, gwerthuso<br><br>Defnyddio ystod o adnoddau a gweithgareddau ymarferol i archwilio, ymateb, myfyrio a chreu gyda'r elfennau drama.<br><br>Creu cymeriadau cyfarwydd gydag arweiniad a chymorth. Chwarae rôl mewn sefyllfaoedd cyfarwydd e.e gartref, dynwared, straeon a chaneuon cyfarwydd, rhigymau. Chwarae rôl, perfformio rhigymau, a rhannu gwaith o flaen eraill (cyfoedion, athrawon).<br><br>Cyflwyno/rhannu gwaith o flaen eraill mewn amrywiol ffyrdd, cymryd rhan weithredol (o flaen / yn "wynebu" cynulleidfa). |

Defnyddio/gallu:

- Creu 'chwarae rôl' byr, rhewi'r ffrâm, cymeriadau syml/cyfarwydd yn defnyddio sgiliau perfformio priodol o blith technegau cyfatebol a addysgir.
- Cymryd rhan mewn perfformiad, rhannu gwaith o flaen eraill, actio mewn rôl
- Mynegi hoff/cas bethau sylfaenol, ystyried sut y mae gwaith yn gwneud iddynt deimlo, cymryd rhan fel aelod o'r gynulleidfa
- Dechrau archwilio cydberthnasau a datblygu cymeriad e.e. trwy gymeriadau mewn gweithgareddau chwarae rôl
- Cael profiad o theatr fyw - datblygu gwybodaeth o beth gall hyn fod.

Cael profiad o wylio theatr fyw - ymweld â theatr, cwmnïau yn ymweld â'r ysgol, gwylio cyfoedion yn perfformio.

Bod yn rhan o gynulleidfa, annog mynegi barn ac ymateb.  Gwylio ystod amrywiol o arddulliau perfformio, genres a ffurfiau

2

# Cam Cynnydd 2

| Gwybodaeth a Sgiliau | Geirfa | Profiadau a Nodweddion |
|---|---|---|
| Gwybod/deall:<br>• Gall drama helpu i ddatblygu dealltwriaeth o'r byd trwy fod yn rhan o ystod o sefyllfaoedd chwarae rôl creadigol a dychmygol.<br>• Pwysigrwydd eu rôl i lwyddiant gweithgaredd/perfformiad grŵp<br>• Ffurf yw sut y mae drama wedi'i llunio, sef sylfaen drama.<br>• Gall genre orgyffwrdd â ffurf, ond mae'n cyfeirio at fath o Ddrama ac fel rheol mae ganddo'i gonfensiynau/nodweddion ei hun ac arddull benodol.<br>• Mae sgript (ysgrifenedig) fel rheol yn cynnwys actau a golygfeydd ac mae wedi'i chofnodi mewn fformat cyffredin. Gall gynnwys cyfarwyddiadau llwyfan, sy'n rhoi cyfarwyddiadau i'r actorion a'r dylunwyr.<br><br>Defnyddio/gallu:<br>• Creu darnau byrion e.e. chwarae rôl, yn efelychu sefyllfaoedd go iawn a | • arddull (ffordd o berfformio)<br>• propiau<br>• gwisgoedd<br><br>Elfennau drama ysgrifenedig<br>• actau<br>• golygfeydd<br>• fformat ysgrifenedig<br>• cyfarwyddiadau llwyfan<br><br>Genre<br>• 'math'<br>• comedi<br>• trasiedi<br>• melodrama<br>• arswyd<br>• hanesyddol<br>• ffuglen/ffeithiol<br><br>Ffurf<br>• drama (wedi'i sgriptio)<br>• gwaith byrfyfyr<br>• meim<br>• symudiad / dawns<br>• sioe gerdd | Mae'n hanfodol bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu defnyddio sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu.<br><br>Cymryd rhan mewn gweithgareddau ymarferol yn defnyddio propiau, gwisgoedd, gwneud dewisiadau am genre a pherfformio mewn arddull sy'n cyd-fynd â hyn.<br><br>Astudio, ymarfer a pherfformio sgriptiau ysgrifenedig. Ysgrifennu sgriptiau byrion ar gyfer golygfeydd, yn seiliedig ar sefyllfaoedd/cyd-destunau a roddir e.e. digwyddiadau o bwys diwylliannol o'r gymuned leol neu'r gymuned ehangach. Creu gwaith byrfyfyr, a chymryd rhan mewn gwaith byrfyfyr a pherfformio.<br><br>Gwylio ystod amrywiol o theatr a pherfformiadau o Gymru a'r tu hwnt, ar ffurfiau gwahanol. Mynegi barn fel aelod o'r gynulleidfa. |

| | |
|---|---|
| sefyllfaoedd ffuglennol a dangos ystod ehangach o gymeriadau, gan ddechrau archwilio'r rheiny sy'n fwy anghyfarwydd iddynt yn defnyddio sgiliau perfformio priodol o blith y technegau cyfatebol a addysgir.<br>• Dangos ymwybyddiaeth gynyddol o gynulleidfa a phwrpas<br>• Ymateb yn fwy manwl wrth roi barn ar waith a welir (gwaith cyfoedion a theatr fyw), gan ystyried sut mae'r gwaith yn gwneud iddynt deimlo, a chymryd rhan fel aelod o'r gynulleidfa.<br>• Dechrau adnabod gwahanol ffurfiau ar Ddrama a'u pwrpas ar gyfer y gynulleidfa<br>• Dechrau archwilio cydberthnasau a datblygu cymeriad e.e. trwy gymeriadau mewn gweithgareddau chwarae rôl. Gweithio'n effeithiol ac yn ddychmygus - ateb cwestiynau mewn rôl<br>• Dechrau archwilio a dangos ymwybyddiaeth o gydrannau drama e.e. actau, golygfeydd<br>• Dechrau archwilio  a dangos ymwybyddiaeth o genre (e.e. comedi, ffuglen ac ati). | • pantomeim |

3

# Cam Cynnydd 3

| Gwybodaeth a Sgiliau | Geirfa | Profiadau a Nodweddion |
|---|---|---|
| Gwybod/deall:<br>• Amrywiaeth gynyddol eang o ffurfiau a genres theatr e.e. theatr gorfforol<br>• Deall pwysigrwydd eu rôl hwy a rôl eraill yn llwyddiant y darn, yn cynnwys cyfathrebu yn ystod perfformiad, ac wrth fodloni eu hamcanion.<br>• Deall bod dramâu/perfformiadau yn cael eu creu ac y gwneir dewisiadau am y perfformiad gydag amrywiol ddibenion a bwriadau mewn golwg, gan gynnwys creu naws ac awyrgylch.<br>• Deall bod naws ac awyrgylch yn perthyn i emosiynau a theimladau'r cymeriadau yn y darn, yn ogystal ag emosiynau a theimladau'r gynulleidfa.<br>• Deall bod theatr yn cael ei pherfformio mewn/ar lwyfannau gwahanol er mwyn creu effaith/dangos arddull neu gyfnod e.e. llwyfan ymwthiol a'r *Globe Theatre.* | Llwyfannu<br>• llwyfan ochrol<br>• llwyfan ymwthiol<br>• theatr gylch<br><br>Cydrannau drama<br>• neillebau<br>• gwrthdaro<br>• tensiwn<br>• cyd-destun<br>• sefyllfa<br><br>Cynulleidfa<br>• bwriadau<br>• nod<br>• effaith<br>• naws<br>• awyrgylch<br><br>Ffurf<br>• monolog<br>• ymddiddan rhwng dau | Mae'n hanfodol bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu defnyddio sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu.<br><br>Perfformio fel aelod o grŵp, gyda chyfleoedd am berfformiad unigol.<br><br>Archwilio, gwaith byrfyfyr, creu a pherfformio.<br><br>Gwylio ystod amrywiol o theatr sydd wedi'i chreu gan bobl o fannau ac amseroedd gwahanol. |

Defnyddio/gallu:

- Creu perfformiadau fwy manwl, gan ystyried cynllunio, ymarfer, datblygu, yn cynnwys ffurf ysgrifenedig.
- Creu a pherfformio yn dangos ystod ehangach o gymeriadau, gan archwilio ystod gynyddol amrywiol o gymeriadau sy'n wahanol iddynt hwy, yn defnyddio sgiliau perfformio priodol o blith y technegau cyfatebol a addysgir.
- Creu a pherfformio yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol ac effeithiol o gynulleidfa a phwrpas.
- Ymateb yn fanwl wrth roi barn ar waith a welir (gwaith cyfoedion a theatr fyw), gan ystyried pwrpas, nodweddion technegol a'r effaith ar gyfer y gynulleidfa, a chymryd rhan fel aelod effeithiol o'r gynulleidfa.
- Adnabod gwahanol fathau o Ddrama, sy'n gynyddol amrywiol, a'u pwrpas ar gyfer y gynulleidfa

- Dechrau archwilio cydberthnasau a datblygu cymeriad e.e. trwy gymeriadau mewn gweithgareddau chwarae rôl. Gweithio'n effeithiol ac yn ddychmygus - ateb cwestiynau mewn rôl

- theatr gorfforol, dilyniannau o symudiadau
- seinlun

- Archwilio a dangos ymwybyddiaeth o arddull, genre, ffurf, llwyfannu ac effaith fwy amrywiol
- Archwilio a dangos ymwybyddiaeth o elfennau a chydrannau drama fwy amrywiol.
- Trafod y defnydd o eirfa briodol a pha mor effeithiol y defnyddiwyd elfennau drama i gyfleu syniadau a theimladau, a hynny ar draws amrywiaeth o genres.

# Cam Cynnydd 4

4

| Gwybodaeth a Sgiliau | Geirfa | Profiadau a Nodweddion |
|---|---|---|
| Gwybod/deall:<br>• Mae ffurfiau/genres wedi datblygu ac yn cynrychioli'r cyfnod y daethant ohono.<br>• Gellir gweld pethau tebyg rhwng ffurfiau/genres, gyda thechnegau yn cael eu haddasu i gyd-fynd â phwrpas a nod arddull benodol.<br>• Rôl elfennau cynhyrchiad gwreiddiol mewn perfformio e.e. goleuo, sain, set, dylunio set | Llwyfannu<br>• llwyfan traws<br>• goleuo (LX)<br>• sain (SFX)<br><br>Cydrannau drama<br>• eironi dramatig<br>• prolog<br>• epilog<br>• saib<br>• themâu | Mae'n hanfodol bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu defnyddio sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu.<br><br>Perfformio fel aelod o grŵp, gan ddangos technegau priodol a ddetholir i gynrychioli arddulliau amrywiol, a hynny o amrywiaeth gynyddol o ddiwylliannau a chyfnodau.<br><br>Gwylio a gwrando ar berfformiadau theatrig y tu allan i'r ysgol sy'n amlygu traddodiadau, hanes a diwylliannau Cymru. |

Defnyddio/gallu:

- Creu a pherfformio yn dangos ystod amrywiol o gymeriadau, gan archwilio ystod gynyddol amrywiol o gymeriadau sy'n wahanol iddynt hwy, yn defnyddio sgiliau perfformio priodol o blith y technegau cyfatebol a addysgir.
- Creu a pherfformio yn dangos ymwybyddiaeth gynyddol ac effeithiol o gynulleidfa a phwrpas, ac o effaith neu naws a fwriedir.
- Nodi sut defnyddiwyd elfennau drama i greu arddull benodol, a dangos ymwybyddiaeth o ystod gynyddol amrywiol o arddulliau/genres.
- Ymateb yn fanwl wrth roi barn ar waith a welir (gwaith cyfoedion a theatr fyw), gan ystyried pwrpas, bwriadau artistig, perfformiad a thechnegau crefft llwyfan o blith y technegau cyfatebol a addysgir, ystyried yr effaith ar gyfer y gynulleidfa a chymryd rhan fel aelod effeithiol o'r gynulleidfa.

Ffurf/Arddull

- drama linell
- theatr mewn addysg; hysbyslenni, neges addysgol, aml-rolau, adroddwr
- *afresymoldeb*

- y pedwaredd wal
- *torri'r* pedwaredd wal
- dull uniongyrchol o gyfarch

5

# Cam Cynnydd 5

| Gwybodaeth a Sgiliau | Geirfa | Profiadau a Nodweddion |
|---|---|---|
| Gwybod/deall:<br>• Mae elfennau drama wedi cael eu defnyddio a'u trin dros amser gyda dychymyg a deallusrwydd cynyddol.<br>• Mae ymarferwyr drama ac arddulliau wedi cael effaith sylweddol ar theatr, a dyma'r newidiadau sylweddol yn esblygiad y theatr.<br>• Arddulliau perfformio yw nodau a bwriadau ymarferwyr, cyd-destun hanesyddol a chymdeithasol ac ati, a sut gellir addasu'r rhain ar gyfer bwriadau creadigol newydd<br>• Datblygu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o rolau a phrosesau arferion theatrig proffesiynol cyfoes.<br>• Effaith y cyd-destun cymdeithasol, hanesyddol a diwylliannol, yn cynnwys confensiynau theatrig y cyfnod y daw'r testun ohono.<br>• Defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth wrth greu, perfformio ac ymateb i ddrama e.e. elfennau dylunio llwyfan, sgiliau perfformio. | Ffurf (<u>*nid yw'n rhestr llawn, ond yn cynnwys...)*</u><br>• theatr fforwm - Augusto Boal<br>• theatr gorfforol e.e. *Frantic Assembly, Earthfall*<br>• drama ddogfen - theatr *verbatim*<br>• theatr Brecht; theatr epig, *v-effekt*, ymddieithrio/ymbellhau, didactig, gestus, hysbyslenni, strwythur episodig, cerddoriaeth a chaneuon,<br>• realaeth; Stanislavski, *The System*, unedau ac amcanion, cred, gwirionedd, yr 'os' lledrithiol, cof emosiynol, cylchoedd sylw<br>• theatr Artaud; confensiynau perfformio 'Y Theatr Greulondeb'.<br><br>• *commedia dell arte*<br>• gwaith corws<br>• realistig, afrealistig, haniaethol<br><br>Cydrannau drama<br>• allan â hwy (*exeunt*)<br>• corws<br>• uchafbwynt | Mae'n hanfodol bod amrywiaeth o weithgareddau yn cael eu defnyddio sy'n rhoi'r cyfle i ddysgwyr archwilio, ymateb, myfyrio a chreu.<br><br>Perfformio caneuon/darnau offerynnol cynyddol gymhleth o Gymru a'r tu hwnt ac o amrywiaeth o gyfnodau fel aelod o ensemble.<br><br>Archwilio, gwaith byrfyfyr a chyfansoddi gydag adnoddau acwstig a thrydanol/digidol.<br><br>Gwrando ar ystod amrywiol o gerddoriaeth sydd ag ymdeimlad cryf o hunaniaeth bersonol, cymdeithasol a diwylliannol yn ôl y bobl a'i creodd, a gafodd ddylanwad ac effaith hanesyddol ac sydd yn dangos gwreiddioldeb a dychymyg.<br><br>Gwylio a gwrando ar berfformiadau cerddorol y tu allan i'r ysgol sy'n amlygu traddodiadau, hanes a diwylliannau Cymru. |

Defnyddio/gallu:

- Cymryd rhan wrth greu, datblygu a pherfformio gwaith wedi'i ddyfeisio, yn seiliedig naill ai ar waith ymarferydd theatr neu ar genre, mewn ymateb i sbardun/thema/syniad. Creu gyda bwriad artistig, a dethol technegau dramatig a dylunio llwyfan priodol i gyflawni hyn.
- Adnabod technegau a nodweddion dramatig arddulliau/ffurfiau theatrig, a thrafod yr effaith a fwriedir.
- Archwilio testunau perfformio, a deall eu cyd-destun cymdeithasol, diwylliannol a hanesyddol gan gynnwys confensiynau theatrig eu cyfnod.
- Ymateb yn fanwl ac yn feirniadol wrth roi barn ar waith a welir (gwaith cyfoedion a theatr fyw), gan ystyried pwrpas, bwriadau artistig, perfformiad a thechnegau crefft llwyfan o blith y technegau cyfatebol a addysgir, a chymryd rhan fel aelod effeithiol o'r gynulleidfa.
- Dadansoddi a gwerthuso eu gwaith, yn cynnwys gwaith ar ddehongli cymeriad, sgiliau (perfformio a dylunio) a pha mor effeithiol y bodlonir bwriadau artistig.

- ensemble
- cymeriad - dehongli a swyddogaeth
- pellter actorion oddi wrth ei gilydd

Llwyfannu

- bwa prosceniwm
- llwyfan hollt
- promenâd
- penodol i safle
- arena
- gofod

Dylunio Llwyfan

- lefelau mewn perfformiad; llwyfannau, sylfaen llwyfan, dec dur, dyluniad llwyfan
- math o lwyfan: bwa prosceniwm, theatr gylch, llwyfan traws neu lwyfan ymwthiol
- LX; sbotolau, LEDs, strôb, golau meddal, dec goleuadau
- SFX; seinyddion, bwrdd sain, effeithiau sain, haenu, yn llawn awyrgylch

- Cwblhau adolygiadau o theatr fyw, yn canolbwyntio ar agweddau penodol ar berfformio neu ddylunio, gan ddadansoddi a gwerthuso effeithiolrwydd o safbwynt aelod o'r gynulleidfa.